
Bwletin Ystadegol

# Y Gymraeg mewn Addysg Uwch, 2021/22

21 Medi 2023
BY 33/2023

Mae'r bwletin hwn yn darparu gwybodaeth am fyfyrwyr sy'n astudio cyrsiau drwy'r Gymraeg gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru. Mae hefyd yn cynnwys staff addysg uwch sy'n addysgu drwy'r Gymraeg ac athrawon dan hyfforddiant sy'n gallu addysgu yn Gymraeg.

**Myfyrwyr gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn ôl y credydau a astudiwyd drwy'r Gymraeg, 2016/17 i 2021/22**




Disgrifiad o'r Ffigur: Siart golofn bentyrrog yn dangos bod nifer y myfyrwyr a oedd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22 wedi aros ar lefel debyg i ffigurau 2020/21.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA

## Pwyntiau allweddol

- Roedd nifer y myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22 1% yn uwch na'r ffigurau yn 2020/21, tra bod y nifer a astudiodd o leiaf 40 credyd 2% yn is.

### Ynglŷn â'r bwletin

Daw'r data sydd wedi'u cynnwys yma o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA). Oni nodir yn wahanol, mae'r holl ddata yn cyfeirio at fyfyrwyr a oedd wedi cofrestru gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys sefydliadau addysg uwch, cofrestriadau â chanolfan genedlaethol Cymru y Brifysgol Agored a chofrestriadau addysg uwch mewn sefydliadau addysg bellach. Mae'r ffigurau diweddaraf ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22.

### Yn y bwletin hwn

| | |
|---|---|
| Cefndir y polisi | 3 |
| Myfyrwyr yn astudio gyda Darparwyr Addysg Uwch yng Nghymru | 5 |
| Pynciau modiwlau | 10 |
| Siaradwyr Cymraeg | 13 |
| Addysg Gychwynnol i Athrawon | 15 |
| Staff | 17 |
| Methodoleg | 21 |
| Diffiniadau | 23 |
| Gwybodaeth allweddol am ansawdd | 26 |

Ystadegydd: Sedeek Ameer ~ addysguuwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

Ymholiadau'r wasg: 0300 025 8099

Twitter: @YstadegauCymru

## Pwyntiau allweddol (parhad)

- O’r 6,070 o fyfyrwyr a astudiodd o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg, astudiodd 2,765 ohonynt o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg, astudiodd 1,390 ohonynt o leiaf 80 o gredydau drwy'r Gymraeg, ac roedd 835 ohonynt yn astudio o leiaf 120 o gredydau drwy’r Gymraeg.
- Mae nifer y staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg wedi gostwng gan 11% rhwng 2016/17 a 2021/22, ond mae wedi aros ar lefel debyg i ffigurau 2020/21.

## Cefndir y polisi

### Y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Mae'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn gweithio gyda phrifysgolion a cholegau ledled Cymru i ddatblygu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr a dysgwyr. Mae'n cefnogi'r broses o ddatblygu darpariaeth a darlithwyr cyfrwng Cymraeg, ac yn cynnig ysgoloriaethau i alluogi israddedigion ac uwchraddedigion i astudio cyrsiau addysg uwch drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Targedau

Yn y bwletin hwn:

- defnyddir y nifer sydd wedi cofrestru yn hytrach na chyfrif pennau;
- mae'r ffigurau'n cynnwys pob modiwl sy'n cael ei astudio mewn blwyddyn, yn hytrach na phob modiwl a gychwynnwyd mewn blwyddyn.

Oherwydd hyn, ni ellir defnyddio'r bwletin hwn i asesu perfformiad yn erbyn y targedau. Er hyn, mae'r targedau'n gyd-destun defnyddiol ac yn rhoi rhyw syniad ynglŷn â chyfeiriad a maint y newid.

Mae nifer o dargedau a mesurau perfformiad yn cael eu cytuno gan Lywodraeth Cymru, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), y Coleg Cymraeg a phrifysgolion unigol. Mae CCAUC yn parhau i fonitro a chyhoeddi cynnydd yn erbyn Mesurau Cenedlaethol a gynlluniwyd i fonitro perfformiad addysg uwch. Defnyddir y Mesurau Cenedlaethol hyn ynghyd â dangosyddion eraill i fesur cynnydd CCAUC yn erbyn amcanion a amlinellir yn ei strategaeth gorfforaethol yn 2021 a chynllun Busnes 2022-23. Mae'r rhain yn cynnwys nifer y myfyrwyr ar gyrsiau addysg uwch sy'n astudio o leiaf 5 credyd ac o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg y flwyddyn.

### Cymraeg 2050

Cyhoeddwyd strategaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg, Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr yn 2017 a chyhoeddwyd Cymraeg 2050: rhaglen waith 2021-2026 yn 2021. Yn ogystal â thargedau i gynyddu nifer y dysgwyr sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg a chamau i'w galluogi i wneud cynnydd yn eu haddysg orfodol ac ôl-orfodol drwy gyfrwng y Gymraeg, mae Cymraeg 2050 hefyd yn cynnwys targedau i gynyddu nifer yr athrawon sy'n gallu addysgu Cymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg.

### Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academaidd sy'n cael ei gyflogi mewn prifysgolion yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, neu'n gallu gwneud hynny. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academaidd er mwyn hyrwyddo addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2019, mae'r Coleg wedi cefnogi sefydliadau gyda grantiau penodol y gellir eu defnyddio tuag at gostau staff.

### Y swm sy’n cael ei astudio mewn credydau

Cyflwynir y swm sy’n cael ei astudio drwy'r Gymraeg mewn credydau, ac nid fel canran o addysg y myfyriwr. Mae hyn yn rhoi gwell darlun o wir swm y dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae credydau hefyd yn ein galluogi i gymharu’n well â’r targedau. Ceir rhagor o wybodaeth yn y Diffiniadau.

### Y Brifysgol Agored

Rhwng 2013/14 a 2020/21, nodwyd myfyrwyr y Brifysgol Agored yng Nghymru yn ôl y man y mae'r myfyriwr yn hanu ohono yn nata HESA. Ar wahân i'r cyfnod hwn, mae myfyrwyr y Brifysgol Agored yn cael eu nodi ôl y dynodwr 'campws' neu'r dynodwr 'canolfan genedlaethol' yn nata HESA. Mae’r rhan fwyaf o ddatganiadau ystadegol addysg uwch eraill Llywodraeth Cymru yn cynnwys myfyrwyr y Brifysgol Agored, ac maent wedi cael eu cynnwys yn y targedau.

### Cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn mewn data pynciau

Mae data pynciau yn cael eu hadrodd ar ffurf cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE) yn hytrach na chyfrifiadau Cyfwerth ag Amser Llawn (FTE). Mae’n haws cymharu cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn â’r ffigurau eraill yn y bwletin.

### Darparwyr addysg uwch

Mae data ar gyfer darparwyr addysg uwch yn cynnwys sefydliadau addysg uwch, myfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn y Brifysgol Agored, a chyrsiau addysg uwch a astudir mewn sefydliadau addysg bellach, oni nodir yn wahanol. Dim ond o 2016/17 ymlaen y mae data ar gyfer cyrsiau addysg uwch a astudiwyd mewn sefydliadau addysg bellach ar gael. Y man cychwyn ar gyfer y rhan fwyaf o gyfresi amser yn y bwletin yw 2016/17 i ganiatáu ar gyfer cymariaethau o un flwyddyn i'r llall. Mae data ar gyfer cyrsiau addysg uwch a astudiwyd mewn sefydliadau addysg uwch cyn 2016/17 ar gael yn StatsCymru.


## Adran A: Myfyrwyr gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru

Mae’r adran hon yn ymdrin â myfyrwyr a astudiodd gyda darparwr addysg uwch yng Nghymru drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae myfyrwyr yn cael eu gwahanu yn awr yn ôl faint o gredydau y gwnaethant eu hastudio drwy'r Gymraeg y flwyddyn honno. Cyfrifir faint yn union y mae’r myfyrwyr yn ei astudio drwy'r Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd drwy'r Gymraeg, byddai hynny’n cael ei gyfrif fel astudio 10 credyd drwy'r Gymraeg. Mae’r categorïau *rhai credydau, o leiaf 5 credyd, o leiaf 40 credyd, o leiaf 80 credyd ac o leiaf 120 o gredydau* hefyd yn gorgyffwrdd. Mae pawb sy’n astudio o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg hefyd yn cael eu cynnwys yn y categori astudio o leiaf 5 credyd drwy'r Gymraeg.

Mae dadansoddiad pellach o’r data i’w weld yn StatsCymru.

**Ffigur A.1: Myfyrwyr sy'n cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg yn ôl lefel a dull yr astudio, 2016/17 i 2021/22**




Disgrifiad o'r Ffigur A.1: Siart linell yn dangos, ar gyfer y cyfnod rhwng 2016/17 a 2021/22, bod nifer y myfyrwyr israddedig llawn amser a oedd yn dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn is yn 2021/22 nag yr oedd ar gyfer 2020/21, ond yn parhau'n uwch nag yr oedd bob blwyddyn rhwng 2016/17 a 2019/20.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- Roedd nifer y myfyrwyr llawn amser a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg 12% yn uwch nag yr oedd yn 2016/17.

- Roedd nifer y myfyrwyr rhan-amser a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg 18% yn is yn 2021/22 nag yr oedd yn 2016/17. Fodd bynnag, roedd y ffigurau yn 2021/22 ar eu huchaf ers 2017/18, gyda chynnydd o 33% yn cael ei adrodd o ffigurau 2020/21.
- Roedd nifer y myfyrwyr israddedig llawn amser a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg 16% yn uwch yn 2021/22 nag yr oedd yn 2016/17, tra bod nifer y myfyrwyr ôl-raddedig llawn amser a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg 11% yn is nag yr oedd yn 2016/17.

**Tabl A.1: Nifer y credydau a astudiwyd yn Gymraeg, 2016/17 i 2021/22**

| **Cofrestriadau** | **2016/17** | **2017/18** | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg | 6,910 | 6,405 | 6,270 | 5,915 | 7,220 | 7,215 |
| O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5,925 | 5,515 | 5,905 | 5,020 | 6,015 | 6,070 |
| O leiaf 40 credyd yn Gymraeg | 2,305 | 2,575 | 2,720 | 2,670 | 2,825 | 2,765 |
| O leiaf 80 credyd yn Gymraeg | 1,320 | 1,355 | 1,410 | 1,485 | 1,530 | 1,390 |
| O leiaf 120 credyd yn Gymraeg | 690 | 730 | 740 | 815 | 895 | 835 |
| Dim o'u haddysg drwy'r Gymraeg | 122,495 | 123,185 | 125,940 | 130,455 | 137,960 | 141,835 |
| **Pob cofrestriad** | **129,405** | **129,595** | **132,210** | **136,370** | **145,175** | **149,045** |
| **Canrannau (%)** | | | | | | |
| Rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg | 5% | 5% | 5% | 4% | 5% | 5% |
| O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | 5% | 4% | 4% | 4% | 4% | 4% |
| O leiaf 40 credyd yn Gymraeg | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% | 2% |
| O leiaf 80 credyd yn Gymraeg | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| O leiaf 120 credyd yn Gymraeg | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% | 1% |
| Dim o'u haddysg drwy'r Gymraeg | 95% | 95% | 95% | 96% | 95% | 95% |

Disgrifiad o'r tabl A.1: Tabl yn dangos er bod nifer y myfyrwyr sy'n astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn uwch yn 2021/22 nag yr oedd yn 2016/17, roedd cyfran y myfyrwyr a oedd yn astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg yn uwch yn 2016/17 nag yr oedd yn 2021/22.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- Yn 2021/22 roedd, 6,070 o fyfyrwyr gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru yn astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg. O’r rhain, astudiodd 2,765 o leiaf 40 credyd drwy'r Gymraeg, astudiodd 1,390 o’r rhain o leiaf 80 credyd ac astudiodd 835 o’r rhain o leiaf 120 credyd.
- Arhosodd nifer cyffredinol y myfyrwyr sy'n astudio rhai credydau yn Gymraeg yn 2021/22 ar lefel debyg i 2020/21 (7,215 o gofrestriadau yn 2021/22). Arhosodd nifer y cofrestriadau ar gyfer myfyrwyr a oedd yn cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg fel cyfran o'r holl gofrestriadau hefyd ar lefel debyg i'r llynedd (5% o'r holl gofrestriadau).

## Tabl A.2: Addysgu drwy'r Gymraeg, yn ôl darparwr addysg uwch, 2021/22

| Cofrestriadau | Rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg | O leiaf 5 credyd yn Gymraeg | O leiaf 40 credyd yn Gymraeg | O leiaf 80 credyd yn Gymraeg | O leiaf 120 credyd yn Gymraeg | Dim o'u haddysg drwy'r Gymraeg | Pob cofrestriad |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau addysg uwch** | **6,815** | **5,675** | **2,530** | **1,315** | **775** | **141,090** | **147,910** |
| Prifysgol Bangor | 1,405 | 1,380 | 930 | 555 | 265 | 9,100 | 10,505 |
| Prifysgol Wrecsam | 10 | 5 | 0 | 0 | 0 | 7,480 | 7,490 |
| Prifysgol Aberystwyth | 430 | 425 | 315 | 125 | 45 | 7,415 | 7,845 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 3,100 | 2,410 | 505 | 235 | 200 | 11,945 | 15,045 |
| Prifysgol Abertawe | 680 | 520 | 140 | 35 | 20 | 21,610 | 22,290 |
| Prifysgol De Cymru | 110 | 110 | 45 | 10 | 10 | 23,160 | 23,270 |
| Prifysgol Caerdydd | 400 | 400 | 295 | 110 | 65 | 33,585 | 33,985 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 285 | 285 | 255 | 225 | 165 | 12,335 | 12,620 |
| Y Brifysgol Agored | 395 | 135 | 45 | 15 | 0 | 14,460 | 14,855 |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **395** | **395** | **235** | **70** | **65** | **740** | **1,140** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 50 |
| Grŵp Llandrillo-Menai | 395 | 395 | 235 | 70 | 65 | 515 | 910 |
| Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 180 | 180 |
| **Pob cofrestriad** | **7,215** | **6,070** | **2,765** | **1,390** | **835** | **141,835** | **149,045** |
| **Canran (%):** | | | | | | | |
| **Sefydliadau addysg uwch** | **5%** | **4%** | **2%** | **1%** | **1%** | **95%** | **100%** |
| Prifysgol Bangor | 13% | 13% | 9% | 5% | 3% | 87% | 100% |
| Prifysgol Wrecsam | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| Prifysgol Aberystwyth | 5% | 5% | 4% | 2% | 1% | 95% | 100% |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 21% | 16% | 3% | 2% | 1% | 79% | 100% |
| Prifysgol Abertawe | 3% | 2% | 1% | 0% | 0% | 97% | 100% |
| Prifysgol De Cymru | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| Prifysgol Caerdydd | 1% | 1% | 1% | 0% | 0% | 99% | 100% |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 2% | 2% | 2% | 2% | 1% | 98% | 100% |
| Y Brifysgol Agored | 3% | 1% | 0% | 0% | 0% | 97% | 100% |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **35%** | **35%** | **21%** | **6%** | **6%** | **65%** | **100%** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| Grŵp Llandrillo-Menai | 44% | 44% | 26% | 8% | 7% | 56% | 100% |
| Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 100% | 100% |
| **Pob cofrestriad** | **5%** | **4%** | **2%** | **1%** | **1%** | **95%** | **100%** |


Disgrifiad o'r tabl A.2: Tabl yn dangos, ar gyfer 2021/22, mai Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, o blith y sefydliadau addysg uwch, oedd â'r nifer uchaf a'r gyfran uchaf o fyfyrwyr yn dysgu o leiaf 5

credyd yn Gymraeg, ac mai Prifysgol Bangor oedd â'r nifer uchaf a'r gyfran uchaf o fyfyrwyr yn dysgu o leiaf 40 credyd yn Gymraeg (9%).

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- 1% o'r myfyrwyr gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru astudiodd 120 o gredydau neu ragor drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22. Y sefydliadau â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr yn astudio o leiaf 120 o gredydau drwy gyfrwng y Gymraeg oedd Grŵp Llandrillo-Menai (7%) ac yna Prifysgol Bangor (3%).
- O bob sefydliad addysg uwch, Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â’r nifer uchaf o fyfyrwyr (3,100) a’r gyfran fwyaf o’i myfyrwyr (21%) yn derbyn rhywfaint o’u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hyn yn ostyngiad o 3 bwynt canran, i lawr o 24% yn 2020/21.
- Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol De Cymru oedd â'r gyfran isaf (llai nag 1%) o fyfyrwyr yn derbyn rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg o blith yr holl sefydliadau addysg uwch.
- Gyda'i gilydd, roedd cofrestriadau ym Mhrifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn cyfrif am ychydig o dan ddau draean (62%) o'r cofrestriadau gydag o leiaf rhywfaint o'r addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Ar hyn o bryd, mae peth anghysondeb yn y ffordd y mae darparwyr addysg uwch yn cofnodi data am fodiwlau cyfrwng Cymraeg ar ffurflen gofnodi HESA, o ran eu diffiniad o fodiwl cyfrwng Cymraeg ac wrth gyfrifo’r ganran o’r modiwl sy’n cael ei haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae CCAUC a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi gweithio gyda sefydliadau i hyrwyddo cysondeb ac mae gwaith pellach yn cael ei wneud i ddatblygu canllawiau clir ar gasglu ac adrodd data a fydd yn gwella ansawdd data ymhellach yn y dyfodol.

**Ffigur A.2: Rhyw y myfyrwyr a astudiodd o leiaf rai credydau yn Gymraeg yn ôl faint a astudiwyd drwy'r Gymraeg, 2021/22**




Disgrifiad o'r Ffigur A.2: Siart golofn bentyrrog yn dangos bod nifer y menywod sy'n astudio o leiaf rhai credydau yn Gymraeg yn 2021/22 yn fwy na dwbl nifer y dynion yn astudio o leiaf rhai credydau yn y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- O'r myfyrwyr a astudiodd o leiaf rhai credydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22, roedd 79% o ddynion (1,700) ac 87% o fenywod (4,350) yn astudio o leiaf 5 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.
- O'r myfyrwyr a astudiodd o leiaf rhai credydau drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22, roedd 32% o ddynion (690) a 41% o fenywod (2,075) yn astudio o leiaf 40 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Adran B: Pynciau modiwlau

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'r dadansoddiad fesul pwnc o'r myfyrwyr a aeth i brifysgol yng Nghymru ac a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfrifir y pynciau y mae myfyriwr yn eu hastudio fesul modiwl, yn wahanol i ddata eraill a gyhoeddir am addysg uwch. Mae hyn oherwydd bod gwybodaeth am addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei chasglu fesul modiwl.

Gall myfyriwr astudio modiwlau mewn nifer o bynciau, a hyd yn oed mwy nag un pwnc mewn modiwl unigol. Gallai unrhyw gyfuniad o bynciau a modiwlau gynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Golyga hyn nad yw'n bosibl adrodd am nifer y pynciau mewn ffordd sy'n gyson â'r cyfansymiau cyfrwng Cymraeg mewn mannau eraill ond sydd hefyd yn fanwl gywir o ran canran y myfyrwyr sy'n astudio pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym wedi dewis gwneud y canrannau'n fanwl gywir.

Mae pynciau yr adroddir amdanynt mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn yn rhannu pob myfyriwr ar draws y pynciau maen nhw'n eu hastudio. Pe bai cwrs myfyriwr yn golygu ei fod yn treulio hanner ei amser yn astudio Mathemateg a'r hanner arall yn astudio'r Gyfraith, byddai hynny'n cyfrif fel hanner myfyriwr (0.5) yn astudio Mathemateg a hanner myfyriwr yn astudio'r Gyfraith. Ar ôl i bynciau myfyriwr gael eu cyfrifo mewn cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn, byddwn yn gwirio a gafodd unrhyw ran o bwnc ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Felly, os Mathemateg yw hanner cwrs myfyriwr (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn), a'i fod yn astudio rhywfaint o Fathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg, yna mae hefyd yn cyfrif fel hanner myfyriwr yn astudio Mathemateg drwy gyfrwng y Gymraeg (0.5 Cyfwerth â Pherson Llawn).

**Ffigur B.1: Pynciau modiwlau y myfyrwyr sy'n cael rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg, 2021/22**

| | Rhywfaint o addysg gyfrwng Cymraeg | Dim addysgu drwy'r Gymraeg | Canran gydag addysgu drwy'r Gymraeg (%) |
|---|---|---|---|
| Meddygaeth a deintyddiaeth | 250 | 4,415 | 5% |
| Pynciau sy'n gysylltiedig â meddygaeth | 880 | 15,555 | 5% |
| Gwyddorau chwaraeon a biolegol | 285 | 10,390 | 3% |
| Seicoleg | 130 | 8,115 | 2% |
| Gwyddorau milfeddygol | 0 | 85 | 0% |
| Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig | 115 | 1,050 | 10% |
| Gwyddorau ffisegol | 5 | 3,610 | 0% |
| Gwyddorau mathemategol | 35 | 2,900 | 1% |
| Peirianneg a thechnoleg | 130 | 9,455 | 1% |
| Cyfrifiadura | 150 | 9,150 | 2% |
| Daearyddiaeth, Astudiaethau Daear ac Amgylcheddol | 45 | 3,175 | 1% |
| Pensaernïaeth, adeiladu a chynllunio | 45 | 2,490 | 2% |
| Gwyddorau cymdeithasol | 940 | 14,100 | 6% |
| Y gyfraith | 210 | 8,640 | 2% |
| Busnes a rheolaeth | 380 | 21,845 | 2% |
| Cyfryngau, Newyddiaduraeth a Chyfathrebu | 140 | 2,520 | 5% |
| Astudiaethau iaith ac ardal | 355 | 6,360 | 5% |
| Astudiaethau Cymraeg a Chymreig | 295 | 25 | 92% |
| Iaith Geltaidd arall | 20 | 60 | 25% |
| Iaith Ewropeaidd arall | 5 | 1,570 | 0% |
| Astudiaethau hanesyddol, athronyddol a chrefyddol | 170 | 3,770 | 4% |
| Dylunio, Celfyddydau Creadigol a Pherfformio | 970 | 6,035 | 14% |
| Drama | 150 | 675 | 18% |
| Cerddoriaeth | 20 | 1,345 | 1% |
| Sinemateg a Ffotograffiaeth | 110 | 790 | 12% |
| Addysg ac addysgu | 1,440 | 6,270 | 19% |
| Hyfforddiant athrawon | 795 | 1,370 | 37% |
| Astudiaetha mewn Addysg | 645 | 4,905 | 12% |
| Astudiaethau cyfun a chyffredinol | 145 | 2,295 | 6% |
| **Pob pwnc** | **6,810** | **142,230** | **5%** |



Disgrifiad o'r Ffigur B.1: Siart far bentyrrog yn dangos nifer y myfyrwyr yn astudio rhai credydau yn Gymraeg yn ôl pwnc modiwl. Y tri maes pwnc eang â'r gyfran uchaf o fyfyrwyr yn dysgu o leiaf rhai credydau yn Gymraeg oedd Addysg ac addysgu, Dylunio, a chelfyddydau creadigol a pherfformio, ac Amaethyddiaeth, bwyd ac astudiaethau cysylltiedig.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- Y modiwlau Addysg ac addysgu oedd â'r nifer uchaf o fyfyrwyr yn astudio rhai credydau yn Gymraeg (1,440), gan gyfrif am 21% o'r myfyrwyr a oedd yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Roedd 295 (4%) o’r myfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o’u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22 yn ei derbyn drwy fodiwl a oedd wedi’i gynllunio’n benodol ar gyfer addysgu Astudiaethau Cymraeg a Chymreig.
- Modiwlau gwyddorau milfeddygol oedd â'r gyfran isaf o addysgu cyfrwng Cymraeg, gyda gwyddorau ffisegol yn dilyn yn agos.

## Adran C - Siaradwyr Cymraeg

Mae HESA yn casglu data gan bob myfyriwr sydd wedi cofrestru gyda darparwr addysg uwch yng Nghymru lle mae'r myfyriwr yn preswylio fel arfer yng Nghymru (cyn astudio). Mae'r data yn cofnodi a yw'r myfyriwr yn ystyried ei hun yn siaradwr Cymraeg ac a yw'n rhugl ai peidio. Mae ansawdd y data ar draws darparwyr yn amrywio, ac mae gan rai ohonynt gyfran sylweddol fwy o gofnodion 'anhysbys' nag eraill. Y Brifysgol Agored yng Nghymru yw'r darparwr sydd â'r gyfran fwyaf a'r nifer mwyaf o fyfyrwyr y mae eu statws siaradwr Cymraeg yn anhysbys.

**Tabl C.1: Gallu siarad Cymraeg myfyrwyr o Gymru, 2021/22**

| | Siaradwr Cymraeg rhugl | Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl | Ddim yn siaradwr Cymraeg | Anhysbys | Pawb |
|---|---|---|---|---|---|
| **Sefydliadau addysg uwch** | **10,155** | **10,325** | **46,075** | **7,295** | **73,845** |
| Prifysgol Bangor | 1,550 | 585 | 2,065 | 0 | 4,205 |
| Prifysgol Wrecsam | 380 | 675 | 2,660 | 90 | 3,805 |
| Prifysgol Aberystwyth | 875 | 545 | 1,295 | 25 | 2,745 |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 1,075 | 1,235 | 5,505 | 115 | 7,930 |
| Prifysgol Abertawe | 1,650 | 1,610 | 6,665 | 0 | 9,925 |
| Prifysgol De Cymru | 1,255 | 1,695 | 10,070 | 140 | 13,165 |
| Prifysgol Caerdydd | 1,760 | 1,690 | 7,560 | 10 | 11,020 |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 880 | 925 | 4,320 | 70 | 6,195 |
| Y Brifysgol Agored | 720 | 1,360 | 5,930 | 6,845 | 14,855 |
| **Sefydliadau addysg bellach** | **315** | **220** | **585** | **10** | **1,125** |
| Coleg Gŵyr Abertawe | 10 | 5 | 30 | 0 | 50 |
| Grŵp Llandrillo-Menai | 275 | 190 | 435 | 0 | 900 |
| Grŵp Coleg Castell-nedd Port Talbot | 25 | 20 | 120 | 5 | 180 |
| **Pob cofrestriad** | **10,470** | **10,545** | **46,660** | **7,305** | **74,975** |

Disgrifiad o'r tabl C.1: Tabl yn dangos bod 14% o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru yn ystyried eu hunain yn rhugl yn y Gymraeg, ac 14% yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg sydd ddim yn rhugl. Roedd statws siaradwr Cymraeg 10% o'r myfyrwyr yn anhysbys, a achoswyd gan nifer uchel o fyfyrwyr yn y Brifysgol Agored nad oedd eu statws siaradwr Cymraeg yn hysbys.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- O blith y sefydliadau addysg uwch, Brifysgol Bangor (37%), Prifysgol Aberystwyth (32%) a Phrifysgol Abertawe (17%) oedd â'r cyfrannau uchaf o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru y gwyddys eu bod yn siaradwyr Cymraeg. Fodd bynnag, ym Mhrifysgol Caerdydd oedd y nifer uchaf o fyfyrwyr sy'n siaradwyr Cymraeg rhugl (1,670).
- O blith y sefydliadau addysg uwch, roedd y gyfran o fyfyrwyr sy'n hanu o Gymru y gwyddys eu bod yn siaradwyr Cymraeg rhugl isaf yn y Brifysgol Agored yng Nghymru (5%), ac yna Prifysgol Wrecsam a Phrifysgol De Cymru (10% ar gyfer y ddwy).

**Tabl C.2: Gallu siarad Cymraeg myfyrwyr o Gymru sy'n astudio gyda darparwyr addysg uwch yng Nghymru, yn ôl faint a astudiwyd drwy'r Gymraeg, 2021/22**

| | **Rhywfaint o'u haddysg drwy'r Gymraeg** | **O leiaf 5 credyd yn Gymraeg** | **O leiaf 40 credyd yn Gymraeg** | **O leiaf 80 credyd yn Gymraeg** | **O leiaf 120 credyd yn Gymraeg** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Siaradwr Cymraeg rhugl | 3,065 | 2,975 | 2,115 | 1,170 | 745 | **10,470** |
| Siaradwr Cymraeg ond ddim yn rhugl | 880 | 710 | 230 | 60 | 45 | **10,545** |
| Ddim yn siaradwr Cymraeg | 2,265 | 1,755 | 320 | 115 | 40 | **46,660** |
| Anhysbys | 235 | 105 | 45 | 10 | 0 | **7,305** |
| **Cyfanswm** | **6,440** | **5,545** | **2,710** | **1,360** | **830** | **74,975** |

Disgrifiad o'r tabl C.2: Tabl yn dangos bod llai na thraean o'r myfyrwyr y gwyddys eu bod yn rhugl yn y Gymraeg wedi astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. O'r rhai a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg, astudiodd 69% o leiaf 40 credyd yn y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- Roedd nifer y myfyrwyr a dderbyniodd rhywfaint o'u haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn debyg iawn ymhlith siaradwyr Cymraeg rhugl a’r rheini sy'n siaradwyr Cymraeg ond heb fod yn rhugl yn yr iaith. Astudiodd 3,065 o siaradwyr Cymraeg rhugl rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22, a derbyniodd 3,140 o fyfyriwr nad oeddent yn siaradwyr Cymraeg, neu a oedd yn siarad Cymraeg ond nad oeddent yn rhugl yn yr iaith, rywfaint drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Dywedodd 40 allan o 830 o fyfyrwyr sy'n astudio o leiaf 120 o gredydau yn Gymraeg nad ydynt yn siaradwyr Cymraeg. Mae hyn yn awgrymu bod rhai problemau â’r data o hyd.

## Adran D - Addysg Gychwynnol i Athrawon

Mae myfyriwr Addysg Gychwynnol i Athrawon (AGA) sy'n cael ei gyfrif fel un sy'n gallu addysgu'n ddwyieithog wedi cwblhau cwrs a gynlluniwyd er mwyn galluogi myfyrwyr i addysgu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a allai fod wedi arwain at dystysgrif ffurfiol ar gyfer addysg ddwyieithog, ond nid o reidrwydd.

Ar hyn o bryd mae'r Brifysgol Agored yn cofnodi pob myfyriwr ar gyrsiau AGA yng nghanolfan genedlaethol y Brifysgol Agored yng Nghymru fel rhai sy'n hyfforddi i addysgu yn Gymraeg. Arweiniodd hyn at or-adrodd ar fyfyrwyr sy'n hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog yn 2020/21. Felly mae ffigurau ar gyfer 2020/21 wedi cael eu diwygio ac yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn 'Yr iaith Gymraeg mewn addysg uwch: Medi 2020 i Awst 2021'.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am fyfyrwyr AGA yma: Bwletin ystadegol addysg gychwynnol i athrawon.

### Tabl D.1: Lefel ysgol myfyrwyr sy'n cwblhau cyrsiau AGA yng Nghymru sy'n arwain at addysgu dwyieithog, 2016/17 i 2021/22

| | | 2016/17 | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd | Wedi eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 115 | 110 | 100 | 130 | 145 | 180 |
| | Heb eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 525 | 495 | 445 | 460 | 495 | 565 |
| Ysgol Uwchradd | Wedi eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 80 | 75 | 70 | 95 | 125 | 110 |
| | Heb eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 425 | 375 | 340 | 345 | 505 | 470 |
| **Cyfanswm** | **Wedi eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg** | **195** | **185** | **170** | **225** | **270** | **290** |
| | **Heb eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg** | **950** | **870** | **785** | **805** | **1,000** | **1,035** |

Disgrifiad o'r tabl D.1: Tabl yn dangos bod nifer y myfyrwyr a gwblhaodd gyrsiau AGA a'u galluogodd i addysgu yn y Gymraeg ar ei uchaf yn 2021/22 am y cyfnod rhwng 2016/17 a 2021/22.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]

- Cwblhaodd 290 o fyfyrwyr gwrs AGA a wnaeth eu hyfforddi i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn 2021/22.
- Fe wnaeth 22% o'r rhai a gwblhaodd gwrs AGA hyfforddi i addysgu'n ddwyieithog yn 2021/22, sydd 1 pwynt canran yn uwch nag yn 2020/21.

- Roedd 24% o athrawon ysgolion cynradd dan hyfforddiant a 19% o athrawon ysgolion uwchradd dan hyfforddiant a gymhwysodd yn 2021/22 wedi eu hyfforddi i allu addysgu'n ddwyieithog.

**Tabl D.2: Gallu i siarad Cymraeg a gofnodwyd gan y rhai sydd wedi cymhwyso mewn cyrsiau AGA yng Nghymru yn ôl y gallu i addysgu yn Gymraeg, 2021/22**

| | **Siaradwr Cymraeg rhugl** | **Siaradwr Cymraeg nad yw'n rhugl** | **Pawb** |
|---|---|---|---|
| Wedi eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 230 | 45 | 290 |
| Heb eu hyfforddi i addysgu yn Gymraeg | 100 | 790 | 1,035 |
| **Cyfanswm** | **330** | **835** | **1,325** |

Disgrifiad o'r tabl D.2: Tabl yn dangos nad oedd 15% o'r myfyrwyr a hyfforddodd i addysgu yn y Gymraeg yn ystyried eu hunain yn siaradwyr Cymraeg rhugl. Mae hyn yn awgrymu bod rhai problemau â'r data o hyd.

Ffynhonnell: Cofnod Myfyrwyr HESA [Gweld y data]


- Yn 2021/22, roedd 70% o'r siaradwyr Cymraeg rhugl a gwblhaodd gyrsiau AGA wedi hyfforddi i addysgu yn ddwyieithog.

## Adran E - Staff

Mae'r adran hon yn cynnwys nifer y staff academaidd sy'n cael eu cyflogi mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, ac yn nodi a ydynt yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar hyn o bryd, neu'n gallu gwneud hynny. Ar y dechrau, roedd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ariannu swyddi academaidd er mwyn datblygu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Ers 2019, mae'r Coleg wedi cefnogi sefydliadau gyda grantiau penodol i dyfu darpariaeth addysg uwch y gellir ei defnyddio i ariannu costau staff yn rhannol.

Mae'r holl ffigurau yn yr adran hon yn rhai Cyfwerth â Pherson Llawn (FPE), oni nodir yn wahanol. Nid yw staff sefydliadau addysg bellach Cymru a'r Brifysgol Agored wedi'u cynnwys yn y data hyn. Mae staff academaidd ar gontractau annodweddiadol hefyd wedi'u heithrio o'r data hyn. Mae rhagor o wybodaeth am staff mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru i'w gweld ar StatsCymru.

**Ffigur E.1: Cyfrifiadau cyfwerth â pherson llawn a chyfwerth ag amser llawn staff academaidd sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**




Disgrifiad o'r Ffigur E.1: Siart yn dangos, ar gyfer y cyfnod rhwng 2016/17 a 2020/21, bod nifer y staff academaidd (FPE a FTE) sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ar ei uchaf yn 2016/17. Mae nifer y staff academaidd (FTE) sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi aros ar lefel debyg ers 2018/19.

Ffynhonnell: Cofnod Staff HESA [Gweld y data]

[Nodyn 1] Yn 2023, gwnaethom nodi anghysondeb rhwng ein dull ni o gyfrifo cyfrifiadau FTE a dull HESA. Arweiniodd hyn at dan-adrodd ar nifer y staff academaidd cyfwerth ag amser llawn. Mae dull newydd, cyson wedi'i roi ar waith yn y bwletin eleni, gyda'r data wedi'u diwygio yn ôl i 2012/13 yn y ciwb perthnasol ar StatsCymru.

- Roedd nifer y staff (FPE) y gwyddys eu bod yn gallu addysgu yn y Gymraeg 11% yn is yn 2021/22 nag yr oedd yn 2016/17, gan aros ar lefel debyg i ffigurau 2020/21.

**Tabl E.1: Staff sy'n addysgu neu sy'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru, 2018/19 i 2021/22**

| | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | 2021/22 |
|---|---|---|---|---|
| Gallu addysgu yn Gymraeg | 1,170 | 1,135 | 1,060 | 1,065 |
| Addysgu yn y Gymraeg | 595 | 585 | 570 | 520 |
| Ddim yn addysgu yn y Gymraeg | 355 | 375 | 310 | 375 |
| Heb geisio gwybodaeth am statws addysgu yn y Gymraeg | 215 | 180 | 185 | 165 |
| Methu addysgu yn y Gymraeg | 7,965 | 8,185 | 8,085 | 7,985 |
| Addysgu yn y Gymraeg | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Ddim yn addysgu yn y Gymraeg | 5,710 | 6,370 | 6,100 | 6,050 |
| Heb geisio gwybodaeth am statws addysgu yn y Gymraeg | 2,255 | 1,820 | 1,990 | 1,930 |
| Heb geisio gwybodaeth am allu siarad Cymraeg | 1,130 | 840 | 895 | 1,135 |
| Addysgu yn y Gymraeg | 10 | 15 | 10 | 15 |
| Ddim yn addysgu yn y Gymraeg | 115 | 65 | 65 | 190 |
| Heb geisio gwybodaeth am statws addysgu yn y Gymraeg | 1,005 | 760 | 825 | 930 |
| **Pob gallu addysgu yn y Gymraeg** | **10,265** | **10,165** | **10,045** | **10,180** |
| **Addysgu yn y Gymraeg** | **605** | **600** | **575** | **535** |
| **Ddim yn addysgu yn y Gymraeg** | **6,180** | **6,805** | **6,470** | **6,615** |
| **Heb geisio gwybodaeth am statws addysgu yn y Gymraeg** | **3,475** | **2,755** | **2,995** | **3,025** |

Disgrifiad o'r tabl E.1: Tabl yn dangos bod ychydig o dan draean o staff yn 2021/22 â data coll ar gyfer naill ai eu gallu i addysgu yn Gymraeg, neu eu statws addysgu yn Gymraeg

Ffynhonnell: Cofnod staff HESA [Gweld y data]

- Gwelwyd gostyngiad o 7% yn nifer y staff academaidd y gwyddys eu bod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, o 575 yn 2020/21 i 535 in 2021/22.
- Roedd llai na hanner yr holl staff y gwyddys eu bod yn gallu addysgu yn y Gymraeg yn addysgu rhywfaint yn y Gymraeg yn 2021/22, o gymharu â 54% yn 2020/21.

**Tabl E.2: Staff sy'n addysgu neu'n gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2021/22 (d)**

| | Addysgu yn y Gymraeg | Gallu addysgu yn y Gymraeg [Nodyn 1] | Methu addysgu yn y Gymraeg | Cyfanswm [Nodyn 2] |
|---|---|---|---|---|
| Prifysgol Bangor | 195(r) | 275 | 525 | **920** |
| Prifysgol Wrecsam | 0(r) | 10 | 185 | **205** |
| Prifysgol Aberystwyth | 120(r) | 170 | 525 | **700** |
| Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant | 35(r) | 275 | 490 | **785** |
| Prifysgol Abertawe | 55(r) | 70 | 1,040 | **1,685** |
| Prifysgol De Cymru | 30(r) | 90 | 1,335 | **1,715** |
| Prifysgol Caerdydd | 80(r) | 130 | 3,270 | **3,400** |
| Prifysgol Metropolitan Caerdydd | 20(r) | 45 | 610 | **770** |
| **Cyfanswm (sefydliadau addysg uwch Cymru, y Brifysgol Agored wedi'i heithrio)** | **535(r)** | **1,065** | **7,985** | **10,180** |

Disgrifiad o'r tabl E.2: Tabl yn dangos bod 5% o staff academaidd sefydliadu addysg uwch Cymru yn addysgu yn y Gymraeg. Prifysgol Bangor a Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r nifer uchaf o staff academaidd y gwyddys eu bod yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgol Bangor oedd hefyd â'r nifer uchaf y gwyddys eu bod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod staff HESA [Gweld y data]

[Nodyn 1] Mae staff sy'n gallu addysgu yn y Gymraeg yn cynnwys staff sydd yn addysgu yn y Gymraeg.

[Nodyn 2] Mae'r cyfansymiau yn cynnwys staff nad yw eu gallu i addysgu yn y Gymraeg neu eu statws addysgu yn Gymraeg yn hysbys.

Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant oedd â'r gyfran uchaf (35%) o staff academaidd a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe oedd â'r gyfran isaf (4%) o staff a oedd yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

(r) Diwygiwyd ar 22 Ionawr 2024. Roedd y ffigurau yn y tabl hwn yn adrodd yn anghywir ddata 2020/21 ar gyfer staff sy'n addysgu yn Gymraeg yn hytrach na data 2021/22. Roedd data 2021/22 wedi'u defnyddio'n gywir ar gyfer data staff sy'n gallu addysgu yn Gymraeg a staff sydd methu addysgu yn Gymraeg. Roedd hyn yn golygu bod ffigurau yng ngholofn addysgu yn y Gymraeg y tabl yn anghywir, ac felly roedd y cyfrifiadau yn y sylwadau cysylltiedig ar gyfer Tabl E.2 yn anghywir. Ni wnaeth y gwall hwn effeithio ar unrhyw rannau eraill o'r bwletin nac ar unrhyw giwbiau StatsCymru.

**Tabl E.3: Canolfan gost staff academaidd sy'n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg, 2021/22**

| | Addysgu yn y Gymraeg | Ddim yn addysgu yn y Gymraeg | Heb geisio gwybodaeth | Pawb |
|---|---|---|---|---|
| Meddygaeth, deintyddiaeth ac iechyd | 75 | 1,835 | 690 | 2,600 |
| Amaethyddiaeth, coedwigaeth a gwyddor milfeddygaeth | 15 | 80 | 20 | 115 |
| Gwyddorau biolegol, mathemategol a ffisegol | 25 | 875 | 325 | 1,225 |
| Peirianneg a thechnoleg | 10 | 595 | 605 | 1,205 |
| Pensaernïaeth a chynllunio | 0 | 100 | 15 | 115 |
| Astudiaethau gweinyddu a busnes | 15 | 670 | 175 | 860 |
| Astudiaethau cymdeithasol | 65 | 825 | 330 | 1,220 |
| Dyniaethau, ieithoedd ac archaeoleg | 125 | 505 | 155 | 785 |
| Dylunio, y celfyddydau creadigol a pherfformio | 30 | 400 | 450 | 880 |
| Addysg | 160 | 665 | 175 | 1,000 |
| Gwasanaethau academaidd | 15 | 40 | 60 | 110 |
| Gwasanaethau a gweinyddiaeth ganolog, cyfleusterau myfyrwyr a staff | 0 | 25 | 30 | 55 |
| Safleoedd a phreswylfeydd ac arlwyo | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm** | **535** | **6,615** | **3,025** | **10,180** |

Disgrifiad o'r tabl E.3: Tabl yn dangos bod y canolfannau cost â'r nifer uchaf o staff y gwyddys eu bod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi'u canfod ym meysydd Addysg a'r Dyniaethau, Ieithoedd ac Archaeoleg. Gyda'i gilydd, roedd y canolfannau cost hyn yn gyfrifol am fwy na hanner y staff y gwyddys eu bod yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Ffynhonnell: Cofnod Staff HESA [Gweld y data]

## Y fethodoleg

Nodiadau pwysig ynghylch sut y cyfrifwyd yr ystadegau. Mae gwybodaeth fwy manwl am y termau a ddefnyddir yn y bwletin hwn ar gael yn yr adran Ddiffiniadau.

### Ffynhonnell ddata

Daw'r data sydd yn y bwletin hwn o Gofnod Myfyrwyr a Chofnod Staff yr Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch (HESA).

Mae crynodeb o'r broses o gasglu data Myfyrwyr ar gyfer 2021/22 sy'n cwmpasu amserlenni, dilysu a rheolau busnes a phrosesau gwirio ar gael ar wefan HESA. Mae crynodeb tebyg i'w weld ar gyfer y broses o gasglu data staff.

### Cwmpas

#### Myfyrwyr

Mae'r ystadegau'n cwmpasu'r myfyrwyr sy'n rhan o boblogaeth gofrestr safonol addysg uwch HESA, neu ei phoblogaeth cymwysterau a enillwyd mewn Addysg Uwch, yn unig. Mae rhagor o wybodaeth am y poblogaethau hyn ar gael yn y diffiniadau o fyfyrwyr ar wefan HESA.

Bob tro y defnyddir y gair 'myfyrwyr' yn y bwletin hwn rydym yn cyfeirio at 'gofrestriadau myfyrwyr'. Mae hyn yn gyfrif o bawb sydd wedi cofrestru ar gyfer cwrs. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr wedi cofrestru ar gyfer dau gwrs gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

Mae dadansoddiad blaenorol wedi dangos bod cofrestriadau amser llawn mewn Sefydliadau Addysg Uwch yng Nghymru lai nag 1% yn uwch na niferoedd y myfyrwyr amser llawn; a bod cofrestriadau rhan-amser lai na 2% yn uwch na niferoedd y myfyrwyr rhan-amser.

Mae pob cyfeiriad at 'fyfyrwyr cymwysedig' yn y bwletin hwn yn cyfeirio at fyfyrwyr yn y boblogaeth 'cymwysterau a enillwyd'. Mewn achosion anghyffredin, lle mae myfyriwr yn cael dau gymhwyster gwahanol yn yr un flwyddyn, byddai'r myfyriwr hwnnw'n cael ei gyfrif ddwywaith.

#### Staff

Mae data cyfwerth â pherson llawn (FPE) yn y bwletin hwn yn seiliedig ar boblogaeth contractau staff academaidd mis Rhagfyr HESA, sy'n cynnwys y contractau hynny a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr o fewn y cyfnod adrodd.

Mae data cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y bwletin hwn yn seiliedig ar boblogaeth sesiynau contractau staff academaidd HESA, ac fe'i cyfrifir gan ddefnyddio poblogaeth y staff a oedd yn weithredol ar unrhyw adeg yn ystod y cyfnod adrodd.

Diffinnir staff academaidd fel gweithwyr proffesiynol academaidd sy'n gyfrifol am gynllunio, cyfarwyddo ac ymgymryd â dysgu ac ymchwil academaidd mewn sefydliadau addysg uwch. Mae'r holl ddata yn eithrio staff annodweddiadol.

Yn dilyn adolygiad gan HESA, newidiodd y fethodoleg a ddefnyddir i leoli gweithwyr proffesiynol academaidd yn 2012/13. Achosodd hyn wahaniaeth sylweddol yng nghanran y staff a ddynodwyd

fel “gwybodaeth heb ei cheisio eto” yn y maes yn gallu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg/yn addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y strategaeth dalgrynnu

Mae cyflwyno ffigurau yn y Bwletin Ystadegol hwn yn dilyn egwyddorion strategaeth dalgrynnu HESA. Bwriad y strategaeth yw sicrhau nad oes unrhyw wybodaeth bersonol am unigolyn yn cael ei datgelu. Mae crynodeb o'r strategaeth i'w weld isod:

- Mae cyfrifiadau pobl yn cael eu talgrynnu i'r lluosrif agosaf o 5.
- Ni chyhoeddir canrannau os ydynt yn ffracsiynau o grŵp bach o bobl (llai na 22.5).

Mae'r cyfansymiau hefyd wedi'u talgrynnu yn ôl y fethodoleg hon; ac fel canlyniad efallai na fydd swm y rhifau ym mhob rhes neu golofn gyfwerth yn union â'r cyfanswm a ddangosir. Cyfrifwyd canrannau gan ddefnyddio ffigurau heb eu talgrynnu.

# Diffiniadau

## Diffiniadau ar gyfer adrannau A i C – Myfyrwyr

### Swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae'r swm a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â faint o'i addysg y mae myfyriwr wedi'i dderbyn drwy gyfrwng y Gymraeg yn ystod y flwyddyn adrodd Mae'n egluro faint o bob modiwl a astudiwyd drwy gyfrwng y Gymraeg. Pe bai myfyriwr yn astudio hanner modiwl 20 credyd yn Gymraeg, byddai hynny'n cael ei gyfrif fel 10 credyd. Mae'r categorïau rhywfaint/5/40/80 o gredydau hefyd yn gorgyffwrdd. Er enghraifft, mae pawb sydd wedi astudio o leiaf 40 credyd yn Gymraeg hefyd yn cael ei gynnwys fel un sydd wedi astudio o leiaf 5 credyd yn Gymraeg.

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Mae cyfrifiad cyfwerth â pherson llawn yn rhannu myfyrwyr rhwng y gwahanol ddulliau astudio, beth bynnag yw cyfanswm yr amser y mae myfyriwr yn astudio. Mae myfyriwr cyd-anrhydedd rhan-amser, sy'n astudio hanner Mathemateg, yn dal i gael ei gyfrif fel hanner myfyriwr Mathemateg (0.5 FPE). Mewn cyfrifiad FTE byddai'r myfyriwr cyd-anrhydedd hwnnw'n cael ei gyfrif fel hanner hanner myfyriwr Mathemateg (0.25 FTE), pe bai cyfanswm yr amser y mae'n astudio hefyd yn hanner yr hyn sy'n gyfwerth â myfyriwr amser llawn.

### Rhyw

Mae rhywiau eraill (anneuaidd) wedi'u cynnwys yn y cyfansymiau.

### Lefel astudio

A yw myfyriwr yn astudio cwrs ôl-radd, gradd gyntaf israddedig neu radd israddedig arall. Nid yw myfyrwyr ôl-ddoethurol yn cael eu cynnwys.

### Dull Astudio

A yw myfyriwr yn astudio ar sail amser llawn neu'n rhan-amser. Fel arfer mae'n ofynnol i fyfyrwyr amser llawn fynychu sefydliad am gyfnodau sy'n gwneud cyfanswm o 24 wythnos o leiaf ym mlwyddyn y rhaglen astudio. Yn ystod y cyfnod hwn, disgwylir fel arfer i fyfyrwyr ymgymryd â chyfnodau astudio, dysgu neu brofiad gwaith sy'n gyfanswm o 21 awr yr wythnos o leiaf ar gyfartaledd.

### Myfyrwyr o Gymru/sy’n hanu o Gymru

Y myfyrwyr sydd wedi’u categoreiddio fel myfyrwyr sy’n hanu o Gymru yw’r rhai yr oedd eu cod post cartref yng Nghymru pan oeddent yn mynd i’w sefydliad addysg uwch am y tro cyntaf.

### Blwyddyn

Blynyddoedd academaidd yw’r blynyddoedd y cyfeirir atynt, o 1 Awst i 31 Gorffennaf.

## Diffiniadau ar gyfer Adran D – Addysg Gychwynnol i Athrawon

### Y gallu i addysgu’n ddwyieithog

Diffinnir myfyrwyr fel rhai sy’n ‘gallu addysgu yn ddwyieithog’ os ydynt yn cymryd rhan mewn cwrs sydd naill ai’n arwain at dystysgrif addysg ddwyieithog ffurfiol, neu nad yw’n arwain at dystysgrif, ond sydd wedi’i gynllunio i alluogi myfyrwyr i addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

### Y math o radd

Mae TAR yn cynnwys Tystysgrif Addysg i Raddedigion, Tystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion a’r Diploma Proffesiynol mewn Addysg. Cymhwyster lefel gradd Meistr yw’r Dystysgrif Addysg i Raddedigion, ond **nid** yw’r Dystysgrif Addysg Broffesiynol i Raddedigion yn gymhwyster lefel gradd Meistr. Mewn rhai achosion, gallai myfyriwr ddechrau astudio cwrs ôl-radd, ond gadael â chymhwyster israddedig.

Mae mwyafrif y cyrsiau ‘Gradd Arall’ ar lefel gradd Baglor, gan gynnwys elfen addysgu sy’n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC).

### Addysg Gychwynnol i Athrawon

Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon (HCA) neu Hyfforddiant ac Addysg Gychwynnol Athrawon (HAGA) oedd hen enwau Addysg Gychwynnol i Athrawon. Mae’n cwmpasu pob llwybr y bydd rhywun yn ei ddilyn i ddod yn athro – gan ennill SAC. Mae’r bwletin hwn yn cwmpasu pobl sy’n dod yn athrawon drwy gyrsiau addysg uwch ffurfiol.

### Statws Athro Cymwysedig (SAC)

Rhaid bod â Statws Athro Cymwysedig er mwyn addysgu mewn ysgol yng Nghymru. Mae SAC yng Nghymru yn wahanol i SAC yn Lloegr neu gofrestr y Cyngor Addysgu Cyffredinol yng Ngogledd Iwerddon a’r Alban.

### Lefel ysgol

Mae ‘lefel ysgol’ yn nodi a yw’r cwrs yn canolbwyntio ar hyfforddi athrawon ysgol gynradd ynteu ysgol uwchradd. Yn aml, gelwir hyn yn ‘gyfnod ysgol’. Pan fydd athro wedi cymhwyso, efallai y bydd yn addysgu ystod oedrannau wahanol i’r un y bu’n hyfforddi ar ei chyfer i gychwyn.

## Diffiniadau ar gyfer Adran E - Staff

### Cyfwerth ag amser llawn (FTE)

Cofnodir cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn y contract ac mae’n mesur yr hyn sy’n gyfwerth ag amser llawn yn ystod y cyfnod adrodd rhwng 1 Awst a 31 Gorffennaf.

### Cyfwerth â pherson llawn (FPE)

Gall unigolion fod â mwy nag un contract gyda sefydliad a gall pob contract gynnwys mwy nag un gweithgaredd gwahanol. Mae cyfrifiadau’r staff wedi cael eu rhannu ymhlith eu gweithgareddau yn unol â’r cyfrifiad cyfwerth ag amser llawn sydd wedi’i ddatgan ar gyfer pob gweithgaredd. Mae hyn yn arwain at gyfrif cyfwerth â pherson llawn. Mae cyfrifiadau Cyfwerth â Pherson Llawn y staff yn cael eu seilio ar y gweithgareddau contract a oedd yn weithredol ar 1 Rhagfyr yn y cyfnod adrodd.

### Staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg

Mae’r tabl contractau’n cynnwys manylion am y staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae nifer y staff sy’n addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cyfrif y staff academaidd sydd ag o leiaf un contract academaidd sy’n cynnwys rhywfaint o addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

## Gwybodaeth allweddol am ansawdd

Mae'r adran hon yn rhoi crynodeb o wybodaeth am yr allbwn hwn yn erbyn pum agwedd ar ansawdd: Perthnasedd, Cywirdeb, Amseroldeb a Phrydlondeb, Hygyrchedd ac Eglurder, a Chymaroldeb. Mae HESA (sef ffynhonnell y data) yn cyhoeddi Ystadegau Gwladol ei hun ac mae’n rhoi manylion am ansawdd ei data ar ei gwefan.

### Perthnasedd

Gwnaethpwyd newidiadau i’r bwletin yn dilyn adborth gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a swyddogion polisi’r Gymraeg. Yn 2011 gwnaethpwyd newidiadau i gynnwys y bwletin yn dilyn adborth gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg. Hefyd, cynhwyswyd y bwletin mewn ymgynghoriad ar ystadegau addysgol, heb ysgogi unrhyw geisiadau allweddol am newidiadau.

Defnyddir yr ystadegau yn Llywodraeth Cymru a thu hwnt i fonitro tueddiadau addysgol ac fel sylfaen ar gyfer dadansoddiadau pellach o’r data gwaelodol. Dyma rai o’r defnyddwyr allweddol:

- Gweinidogion a Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau yn y Senedd
- Swyddogion yn Llywodraeth Cymru
- Adrannau eraill y llywodraeth
- Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
- Sefydliadau Addysg Uwch a chyrff cynrychioladol
- Myfyrwyr, ymchwilwyr ac academyddion
- Dinasyddion unigol, cwmnïau preifat, a’r cyfryngau

Defnyddir yr ystadegau hyn mewn ffyrdd amrywiol. Dyma rai enghreifftiau:

- Fel sail i’r broses o wneud penderfyniadau ynglŷn â’r polisi addysg yng Nghymru ac fel sail i’r strategaethau presennol, er enghraifft, y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg

### Cywirdeb

### Newidynnau sy’n cael eu hunanasesu

Mae llawer o feysydd allweddol HESA sy’n ymwneud â’r iaith Gymraeg yn dibynnu ar asesiad y myfyriwr neu’r brifysgol. Mae’r dangosydd WELSSP ar gyfer gallu’r myfyriwr i siarad Cymraeg yn cael ei hunanasesu gan y myfyriwr a gall y safon ar gyfer rhugldber newid o’r naill berson i’r llall. Nodir arwyddion nad yw’r dangosydd yn ddibynnol bob amser dan dabl D.2.

Defnyddir preswylfan myfyriwr yn hytrach na chofnod o’i genedl. Fodd bynnag, nid yw’n wir bob tro bod myfyriwr o Gymru yn preswylio yng Nghymru. Efallai bod rhywun wedi symud o Gymru ychydig cyn dechrau ar eu cwrs. Gall hyn arwain at fyfyrwyr nad ydynt yn hanu o Gymru yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn yr un modd, defnyddir y maes LANGPCNT er mwyn canfod a yw myfyriwr yn astudio drwy gyfrwng y Gymraeg a faint y mae wedi ei astudio drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r maes hwn yn cael ei asesu gan y brifysgol a gallai prifysgolion asesu cynnwys cyfrwng Cymraeg modiwlau yn

wahanol. Yn 2015/16, darganfuwyd nad oedd rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg yn cael eu hasesu fel rhai a oedd yn cael eu hastudio'n gyfan gwbl drwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y gorffennol, roedd yn ofynnol i sefydliadau naill ai gyflwyno cyfartaleddau cyrsiau neu'r gwerthoedd gwirioneddol am bob cofrestriad i'r Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch. Ar gyfer yr ystadegau a ddefnyddir yn y bwletin hwn, nid yw gwerthoedd cyfartalog y cyrsiau'n briodol. Mae'n goramcangyfrif nifer y myfyrwyr sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg oherwydd bydd gan ragor o fyfyrwyr werthoedd dim-sero.

### Diwygiadau

Nodwyd anghysondebau rhwng ein dulliau ni a dulliau HESA ar gyfer grwpio canolfannau cost a chyfrifo cyfrifiadau cyfwerth ag amser llawn (FTE). Arweiniodd hyn at dan-adrodd ar nifer y staff academaidd FTE a nifer wahanol o staff o fewn canolfannau cost yn nata HESA. Mae dulliau newydd ar gyfer cael cyfrifiadau FTE a chanolfannau cost sy'n gyson â HESA wedi'u rhoi ar waith yn y bwletin eleni, ac adolygwyd data ar gyfer y blynyddoedd blaenorol i adlewyrchu hyn.

### Amseroldeb a phrydlondeb

Casglodd HESA ddata cofrestriadau myfyrwyr a staff ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 o fis Awst 2021. Cynhyrchodd ei datganiad ei hun ar Gofrestriadau Myfyrwyr Addysg Uwch a'r Cymwysterau a Gafwyd mewn Sefydliadau Addysg Uwch ym mis Ionawr 2023 a rhyddhaodd ei chyhoeddiad diweddaraf am Staff mewn Addysg Uwch ym mis Chwefror 2023. Mae'r bwletin Cymraeg hwn yn tynnu sylw at ddimensiwn penodol Gymreig i'r data a gesglir am fyfyrwyr a staff. Symudwyd dyddiad rhyddhau y bwletin hwn o'i ddyddiad arferol a drefnwyd ym mis Gorffennaf i fis Medi eleni oherwydd bod llai o adnoddau.

### Hygyrchedd ac eglurder

Rhoddir gwybod am y bwletin ystadegol hwn o flaen llaw ac yna caiff ei gyhoeddi yn adran Ystadegau gwefan Llywodraeth Cymru.

I gyd-fynd â'r bwletin hwn ceir tablau manylach yn StatsCymru, safle dosbarthu sy'n galluogi ymwelwyr i weld, addasu a chreu tablau i'w lawrlwytho.

### Cymharedd a chysondeb

Oherwydd testun y bwletin hwn, nid oes ystadegau y gellir cymharu â hwy wedi'u cynhyrchu ar gyfer gwledydd eraill y DU. Mae'r diffiniadau'n gyson â datganiadau addysg uwch eraill Llywodraeth Cymru, ar wahân i'r dadansoddiadau o bynciau sy'n cael eu cyfrifo fesul modiwl yma er mwyn ymgorffori'r wybodaeth cyfrwng Cymraeg.

## Statws Ystadegau Gwladol

Mae Awdurdod Ystadegau'r Deyrnas Unedig wedi dynodi'r ystadegau hyn yn Ystadegau Gwladol, yn unol â Deddf y Gwasanaeth Ystadegau a Chofrestru 2007 ac sy'n golygu eu bod yn cydymffurfio â'r Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau.

Mae statws Ystadegau Gwladol yn golygu bod yr ystadegau swyddogol yn cyrraedd y safonau uchaf o ran y gallu i ymddiried ynddynt, ansawdd a gwerth i'r cyhoedd.

Dylai'r holl ystadegau swyddogol gydymffurfio â phob agwedd ar y Cod Ymarfer ar gyfer Ystadegau. Dyfernir statws Ystadegau Gwladol iddynt ar ôl i gangen rheoleiddio Awdurdod Ystadegau'r DU eu hasesu. Mae'r Awdurdod yn ystyried a yw'r ystadegau yn cyrraedd y safonau uchaf o ran cydymffurfio â'r Cod, gan gynnwys y gwerth y maent yn ei ychwanegu at benderfyniadau a thrafodaethau cyhoeddus.

Mae cyfrifoldeb ar Lywodraeth Cymru i gydymffurfio â'r safonau a ddisgwylir gan Ystadegau Gwladol. Os byddwn yn amau a yw'r ystadegau hyn yn cyrraedd y safonau priodol o hyd, byddwn yn trafod unrhyw bryderon â'r Awdurdod ar unwaith. Gellir dileu statws Ystadegau Gwladol ar unrhyw adeg lle na lwyddir i gynnal y safonau uchaf, a'i ailddatgan pan gaiff y safonau eu cyrraedd unwaith eto.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant i Gymru, Maent yn anelu at greu Cymru fwy cyfartal, llewyrchus, cydnerth, iachach sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog a lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. O dan adran (10)(1) o'r Ddeddf, rhaid i Weinidogion Cymru (a) gyhoeddi dangosyddion ("dangosyddion cenedlaethol") sy'n gorfod cael eu cymhwyso at ddibenion mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant, a (b) gosod copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron Senedd Cymru. O dan adran 10(8) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, pan fo Gweinidogion Cymru yn diwygio'r dangosyddion cenedlaethol, rhaid iddynt, cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a) gyhoeddi'r dangosyddion fel y'u diwygiwyd a (b) gosod copi ohonynt gerbron y Senedd. Fe gafodd y dangosyddion cenedlaethol hyn eu gosod gerbron y Senedd yn 2021. Mae'r dangosyddion a osodwyd ar 14 Rhagfyr 2021 yn disodli'r set a osodwyd ar 16 Mawrth 2016.

Mae gwybodaeth am y dangosyddion, ynghyd â naratif ar gyfer pob un o'r nodau llesiant a'r wybodaeth dechnegol gysylltiedig ar gael yn yr adroddiad Llesiant Cymru.

Rhagor o wybodaeth am Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Gallai'r ystadegau sydd wedi'u cynnwys yn y datganiad hwn hefyd gynnig naratif ategol i'r dangosyddion cenedlaethol a gellid eu defnyddio gan fyrddau gwasanaethau cyhoeddus mewn perthynas â'u hasesiadau llesiant lleol a'u cynlluniau llesiant lleol.

## Rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen ar gael yn:

https://www.llyw.cymru/yr-iaith-gymraeg-mewn-addysg-uwch-medi-2021-i-awst-2022

Mae tablau sy'n gysylltiedig â'r bwletin hwn ac sy'n cynnwys mwy o fanylion ar gael drwy StatsCymru, sef gwasanaeth dosbarthu data rhyngweithiol Llywodraeth Cymru.

## Diweddariad nesaf

Gorffennaf 2024 ar gyfer blwyddyn academaidd 2022/23

## Rydym am gael adborth gennych

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Gallwch anfon eich sylwadau drwy e-bost i addysguwchachyllidmyfyrwyr.yst@llyw.cymru

## Y Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y Drwydded Llywodraeth Agored, fersiwn 3.0, oni nodir yn wahanol.